



ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR TREF ABERTEIFI

BLWYDDYN DDINESIG 2025-26

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Aberteifi, sy'n rhoi trosolwg o'n gweithgareddau, ein cyflawniadau a'n perfformiad ariannol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i wasanaethu cymuned Aberteifi, cynnal tryloywder yn ein gwaith, ac ymdrechu i wella ansawdd bywyd holl drigolion y dref.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol, cefnogi mentrau lleol, a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau partner. Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd, rydym wedi gwneud cynnydd drwy adnewyddu'r cyrtiau tenis lleol ac ymrwymo i gymryd cyfrifoldeb am y pedwar bloc cyfleusterau cyhoeddus yn Aberteifi er mwyn atal eu cau. Cynhaliwyd ein Noson Cyflwyno Gwobrau Grantiau gyntaf, a roddodd lwyfan cyhoeddus i elusennau a sefydliadau lleol rannu gwybodaeth am eu gweithgareddau.

Rydym yn parhau'n ymroddedig i warchod cymeriad unigryw Aberteifi wrth hyrwyddo twf cynaliadwy a lles cymunedol.

Wedi'i lleoli ar hyd arfordir godidog Ceredigion, mae Aberteifi yn dref fywiog a deniadol sy'n cynnig cyfuniad perffaith o harddwch naturiol, hanes a diwylliant Cymreig. Hi yw porth Dyffryn Teifi a Llwybrau Arfordir Ceredigion a Sir Benfro. Saif ar ran llanw Afon Teifi ac mae'n ail dref fwyaf Ceredigion.

Mae Cyngor Tref Aberteifi yn gwasanaethu ardal Aberteifi a'i phoblogaeth o tua 4,300 o drigolion, gyda 3,325 ar y gofrestr etholiadol. Mae gan y Cyngor 14 o gynghorwyr, sy'n cynrychioli wardiau Mwldan (6 chynghorydd), Rhyd-y-Fuwch (4 cynghorydd) a Teifi (4 cynghorydd).

Y Cynghorwyr Tref yn ystod cyfnod 2025/26 oedd:

John Adams-Lewis

Nicholas Bolton

Mark Cole

Clive Davies

Olwen Davies (Maer)

Richard Davies

Elaine Evans

Teresa Harries

Richard Jones

David Maehrlein

Siân Maehrlein

Catrin Miles

Philippa Noble

Trystan Phillips

Mae'r Cyngor Tref yn cyflogi un aelod staff rhan-amser – Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Eleri Maskell. Mae hefyd yn cyflogi Richard Davies fel Bachan Deche ar sail hunangyflogedig.

Nodyn gan y Clerc

Rwyf wedi bod yn y swydd ran-amser hon ers mis Ebrill 2020. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae Cyngor Tref Aberteifi wedi bodloni'r meini prawf i fabwysiadu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol (PCC), ac rydym yn gweithredu gan ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae'r swydd rwy'n ei dal yn amrywiol a diddorol. Rwy'n mwynhau gweithio gyda'r cynghorwyr a chyfathrebu â thrigolion y dref. Prif ffocws y flwyddyn ddinesig 2026-27 fydd cynnal safleoedd cyfleusterau cyhoeddus effeithlon a glân; cynyddu ymgynghoriad cyhoeddus gyda'n trigolion; a datblygu cynllun gwella sylweddol ar gyfer yr ardal chwarae ym Mharc Brenin Siôr V.

Mae Cyngor Tref Aberteifi yn gyfrifol am:

- Caeau Brenin Siôr V a'r ardaloedd chwarae cyfagos;
- Parc Sglefrio Aberteifi;
- Ardal chwarae Pentop;
- Goleuadau Nadolig;
- Meinciau a dodrefn stryd;
- Arddangosfeydd blodau;
- Darparu grantiau ariannol a chefnogaeth arall i sefydliadau lleol ac achosion da;
- Cau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau blynyddol yng nghanol y dref;
- Elfen marchnad stryd Ffair Aberteifi;
- Cefnogi'r awdurdod unedol – Cyngor Sir Ceredigion – wrth gynnal mannau gwyrdd y dref.

Amcanion Cyngor Tref Aberteifi

- Darparu gwasanaeth da a gwerth am arian i bobl Aberteifi drwy wella lles ledled y dref.
- Parhau i ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2022–2027 (mabwysiadwyd cynllun blynyddol cychwynnol ym mis Rhagfyr 2021).
- Creu strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn galluogi'r cynghorwyr a'r clerc i ymgysylltu'n eang â chymunedau amrywiol Aberteifi, gan gynnwys y cenedlaethau iau a hŷn, ac adnabod blaenoriaethau drwy'r ymgysylltu a'r ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw.
- Creu "Cynllun Lle Digidol" ar gyfer Tref Aberteifi a pharhau i arwain y ffordd gyda thechnolegau newydd megis "Rhyngrwyd Pethau" (Internet of Things).
- Parhau i gydweithio'n agos â chynghorau tref a chymuned cyfagos ac eraill.

Crynodeb Ariannol

Y Praesept yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor ac mae'n cynrychioli'r gyfran o'r dreth gyngor a delir gan aelwydydd yn Aberteifi sy'n cael ei dyrannu i'r Cyngor Tref.

Y praesept blynyddol ar gyfer 2025–26 oedd £99,024.20. Roedd cyfradd treth gyngor eiddo Band D yn cyfateb i £51.65 fesul aelwyd.

Incwm arall a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn oedd £1,050 mewn rhent gan y Clwb Bowlio a'r Clwb Rygbi.

Derbyniwyd grant o £7,969 gan Gyngor Sir Ceredigion, wedi'i ariannu drwy Grant Gwella Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd chwarae, a alluogodd y Cyngor i brynu offer newydd ar gyfer Ardal Chwarae Pentop, a ddefnyddir gan drigolion ystadau Golwg y Castell ac Awel y Môr.

Cwblhawyd prosiect grant y Gymdeithas Tennis Lawnt gyda chyfraniad o £12,200, a bydd y tymor hwn yn nodi'r tymor llawn cyntaf lle bydd y cyrtiau wedi'u hadnewyddu yn cael eu defnyddio'n llawn. Rheolir yr ased gan Tennis Cymru, gan elwa ar ei harbenigedd i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r cyfleuster hwn yng nghanol y dref.

Cododd elfen marchnad stryd Ffair Aberteifi £1,510, sy'n talu am brif gostau trefnu'r digwyddiad.

Mae adroddiad llawn o'r incwm a'r gwariant ar gael ar ein gwefan.

Dyfarniadau Grantiau a Gwariant Arall

Dosbarthwyd cyfanswm o £18,680 i elusennau lleol a sefydliadau cymunedol.

Ymhlith y derbynwyr roedd:

- Gŵyl Fawr Aberteifi
- Theatr y Byd Bychan (Small World Theatre)
- Theatr Mwldan

- Clwb Ceir Clasurol Aberteifi
- Eglwys y Santes Fair
- Clwb Pêl-droed Iau Llandudoch
- Bendith
- Castell Aberteifi
- Pwyllgor Dydd Sadwrn Barlys
- Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Iau Aberteifi
- Clwb Pêl-rwyd Aberteifi
- Grŵp Cymunedol Fflach
- Cyfeillion Parc Netpool
- Clwb Ffermwyr Ifanc Penparc
- 1st Cardigan Guides
- HAHAV Ceredigion
- Clwb Pêl-droed Maesglas
- Cardished
- Canwyr Clychau Eglwys Aberteifi
- Gŵyl yr Afon a Bwyd

Dyrannodd y Maer, y Cyngorydd Olwen Davies, ei Chronfa Rhoddion y Maer o £1,000 rhwng Clwb Achub Bywyd Traeth Poppit, Gofal Canser Aberteifi, Ein Cegin, a Chanolfan Therapi Ocsigen Aberteifi.

Dyfarnwyd grant arbennig o £10,000 i Eisteddfod y Garreg Las, a ddisgwyllir i ddod â chynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr ym mis Awst.

Mae gwariant rheolaidd arall yn cynnwys cynnal a chadw Ardal Chwarae Brenin Siôr V, arddangosfeydd blodau yng nghanol y dref, addurniadau Nadolig, a'r costau gweinyddol hanfodol sy'n gysylltiedig â rhedeg y Cyngor.

Nodyn Personol gan y Maer

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi fy nghefnogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: aelodau'r Cyngor, y Clerc, teulu a ffrindiau, ond yn enwedig fy nith a'm Consort, Ffion Davies, am ei chefnogaeth a'i chwmnïaeth ddiwyro. Rwyf wedi mwynhau fy ail flwyddyn yn y swydd yn fawr iawn ac yn gwerthfawrogi pob gwahoddiad caredig a estynnwyd i ni.

Ymhlith uchafbwyntiau niferus y flwyddyn roedd sawl digwyddiad arbennig yr oedd yn bleser eu mynychu fel Maer. Roedd y rhain yn cynnwys Gŵyl Grefft Cymru, lle'r oedd safon

a chreadigrwydd yr arddangosfeydd yn wirioneddol eithriadol; a gŵyl Y Lleisiau Eraill, a oedd yn bleser pur i'w mynychu drwy gydol y penwythnos. Roedd yn hyfryd gweld y torfeydd yn dod i'r dref i ddathlu amrywiaeth gyfoethog o gerddoriaeth a diwylliant o bell ac agos.

Digwyddiad pleserus arall yn ystod y flwyddyn oedd Carnifal Tref Aberteifi. Roedd yn hyfryd gweld cymaint o bobl yn dod ynghyd i fwynhau diwrnod llawn hwyl, gyda gweithgareddau ac adloniant i bob oed. Roedd llwyddiant y digwyddiad yn dyst i waith caled ac ymroddiad y grŵp bach o wirfoddolwyr ar Bwyllgor y Carnifal, y sicrhodd eu hymdrechion fod y diwrnod yn bleserus ac wedi'i drefnu'n dda.

Uchafbwynt arall y flwyddyn oedd Sioe Amaethyddol Aberteifi ac mae'n parhau i fod yn un o ddigwyddiadau mwyaf ein calendr blynyddol. Mae'n gyfle pwysig i ddathlu gwaith caled a chyflawniadau ein cymuned ffermio, tra hefyd yn arddangos busnesau, masnachwyr ac arddangoswyr lleol. Mae'r digwyddiad yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth ddod â phobl o bob cwr o'r rhanbarth ynghyd a hyrwyddo treftadaeth amaethyddol gyfoethog ein hardal.

Roedd Ffair Aberteifi yn achlysur cofiadwy arall. Roedd yn arbennig o deimladwy gweld y llawenydd a brofwyd gan aelodau o'n cymuned ag anghenion arbennig ar y noson cyn i'r ffair agor yn swyddogol. Darparwyd y reidiau yn rhad ac am ddim diolch i haelioni Vernon Stud, gan greu profiad gwirioneddol arbennig i bawb a fu'n rhan ohono.

Mae Seremoni Gwneud Maer Barwniaeth Cemais yn draddodiad gwerthfawr sy'n llawn urddas a mawredd hanesyddol. Yn rhyfeddol, dim ond yng Nghasnewydd, Sir Benfro, ac yn Llundain y mae'r arfer hwn wedi goroesi. Roedd ei mynychu yn brofiad hynod ddiddorol ac agoriad llygad.

Mae Gŵyl y Goleuni, sy'n cyrraedd ei uchafbwynt gyda'r Orymdaith Lusernau ysblennydd, yn ddigwyddiad unigryw arall sy'n arddangos creadigrwydd ac ysbryd cymunedol ein tref. Cafodd Aberteifi ei goleuo gan lusernau hardd, gan greu gwledd i'r llygaid yn ystod nosweithiau tywyll y gaeaf.

Un o'r profiadau mwyaf twymgalon yn ystod y flwyddyn oedd dosbarthu 33 o giniawau Nadolig i rai o aelodau llai abl ein cymuned. Roedd darparu gwledd o'r fath ar Ddydd Nadolig yn ein hatgoffa'n bwerus o ba mor anodd ac unig y gall cyfnod yr ŵyl fod i rai pobl. Roedd yn achlysur gwirioneddol ostyngedig.

Daeth fy mlwyddyn yn y swydd i ben gyda'n digwyddiad traddodiadol poblogaidd, Dydd Sadwrn Barlys. Mae ein tref yn ymfalchïo'n fawr yn yr achlysur unigryw hwn, a boed iddo barhau am flynyddoedd lawer fel rhan annwyl o galendr blynyddol Aberteifi.

Drwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi parhau i chwarae rhan allweddol yn y Cynllun Llifogydd, gan gefnogi trigolion sy'n byw yn agos at yr afon. Yn ogystal, mae canolfan codi sbwriel a thudalen Facebook wedi'u sefydlu i annog cynghorwyr, busnesau a thrigolion i ymfalchïo yn eu tref a chyfrannu'n weithredol at gadw ein strydoedd yn lân.

Prosiect parhaus yr wyf yn arbennig o falch o'i gefnogi yw creu gardd gymunedol yn Rhos y Dre. Nod y fenter hon yw trawsnewid darn o dir nas defnyddir yn ofod gwyrdd croesawgar y gall trigolion ei fwynhau.

Oherwydd amgylchiadau unigryw, mae gennyf y ffrainc o barhau yn rôl y Maer am flwyddyn arall. Bydd hyn yn caniatáu i'r prosiectau hyn ddatblygu ymhellach a dod i'w llawn dwf yn ystod fy mlwyddyn ddinesig nesaf. Gobeithiaf y bydd profiadau fy nhrydedd flwyddyn yn y swydd hyd yn oed yn fwy gwerth chweil na'r rhai a gafwyd yn ystod yr ail flwyddyn – yn enwedig gan fy mod bellach wedi cael ychydig o ymarfer!

Diolch yn fawr iawn.

Y Cyngorydd Olwen Davies
Maer Aberteifi

Rhoddion a Threuliau'r Maer 2025/2026

Digwyddiad / Rhodd	Swm
Dathliad Diwrnod VE Maesglas	£20
Swper Cegin Teifi	£20
Cinio Blynnyddol Clwb Rygbi Aberteifi	£50
Rali CFFI Ceredigion	£20
Datganiad Organ Jane Watts	£20
Gŵyl Fawr Aberteifi	£50
Sioe Amaethyddol Aberteifi	£100
Gweithgareddau Carnifal Aberteifi	£30
Cerdded y Terfynau (Eating the Bounds)	£20
Cinio Brioude	£30
Bore Coffi Hafod	£20
Sul y Cofio yr Eglwys Gatholig	£20
Cinio Barley Saturday	£50
Groto Siôn Corn	£40
Bore Coffi RNLI	£20

Digwyddiad / Rhodd	Swm
Beirniadu Elves, Maesglas	£20
Gwasanaeth Carolau Eglwys y Santes Fair	£20
Gwasanaeth Carolau RNLI	£20
Anrheg Pen-blwydd yn 100 oed	£10
Basgedi Nadolig y Gwasanaethau Brys (x4)	£150
Cinio Grŵp Cymorth Parkinson's	£50
Melysion i Ddarparwyr Cinio Nadolig	£12
Bore Coffi Ambiwlans Awyr Cymru	£20
Gorymdaith Barley Saturday	£50
Bore Coffi, Hwb	£20
Gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith yn Eglwys y Santes Fair	£20
Gymanfa Ganu, Bethania	£20

Teithiau Maerol

- Seremoni Gwneud Maer Aberystwyth
- Cyhoeddiad Eisteddfod Narberth
- Rali CFfl Ferwig
- Seremoni Gwneud Maer Casnewydd